NICE National Institute for Health and Care Excellence

7 Mawrth 2018

Mae pertuzumab (Perjets), gyda trastuzumab a docetaxel, ar gael ar y GIG. Mae'n opsiwn posibl i oedolion â chanser rheolaidd lleol neu fetastatig (eilaidd) lle mae'r canlynol yn gymwys:

- mae'r canser yn dderbynnydd ffactor twf epidermol dynol 2 (HER2)-positif
- ni ellir ei dynnu drwy lawdriniaeth ac
- nid yw wedi'i drin gyda chemotherapi na therapi HER2 a dargedwyd yn flaenorol.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy am ganser y fron ymhlith merched a dynion.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Breast Cancer Now, 0333 207 0300
- Gofal Canser y Fron, 0808 800 6000
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2466-0

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights